# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Diweddariad am y Polisi ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd a'r Prosiect Carbon Bositif |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 31.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ceri Davies |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Clive Walmsley/Pete Jones |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth a phenderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Nodi a chymeradwyo'r canlynol:<br>- Datblygiadau o ran y polisi ynghylch y newid yn yr hinsawdd<br>- Cynnydd o ran gwerthuso statws carbon net ac opsiynau lliniaru Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Y meysydd â blaenoriaeth sydd i'w hystyried ymhellach yn rhaglen waith y prosiect |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:** Nod y prosiect yw lleihau allyriadau carbon net Cyfoeth Naturiol Cymru fel esiampl i eraill er mwyn cyflymu'r newid i economi carbon isel yng Nghymru, gan leihau effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd.<br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:** Bydd y prosiect yn archwilio'r ystod o fanteision lluosog sy'n perthyn i fesurau lleihau carbon ac yn ymgorffori arfer gorau o ran rheoli carbon ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** Cyn bo hir byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â staff er mwyn ymgynghori ynghylch yr opsiynau lliniaru a chael mewnbwn o bob rhan o'r sefydliad.<br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:** Rydym yn chwilio am arfer gorau gan sefydliadau eraill ac rydym yn rhanddeiliad yn y prosiect NETpositive. Byddwn yn rhannu |

| | |
|---|---|
| | ein profiad ag aelodau Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.<br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:** Mae cyfrannu at leihau allyriadau byd-eang yn hanfodol er mwyn lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu darlun trosfwaol o ddatblygiadau diweddar o ran y polisi ynghylch y newid yn yr hinsawdd a chynnydd o ran y Prosiect Carbon Bositif, yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2015. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â chyflawni ein canlyniadau o ran y newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, mae'r gwaith y sonnir amdano yn y papur Mawndiroedd i'r Dyfodol yn cyfrannu at y prosiect hwn, oherwydd bydd yn helpu i gyflawni'r amcanion ehangach a nodir yma. Bydd papurau'r Bwrdd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud er mwyn mynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.

## Cefndir

2. **Datblygiadau o ran y polisi ynghylch y newid yn yr hinsawdd**. Daeth 21fed Gynhadledd y Partïon (CoP21) Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gynhaliwyd ym Mharis ym mis Rhagfyr, i ben gyda chytundeb rhyngwladol sy'n rhoi hwb ychwanegol i ymdrechion i leihau allyriadau byd-eang ac osgoi effeithiau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd. Ymhlith llawer o sylwebyddion roedd y cytundeb yn cael ei ystyried yn ddiwedd y dechrau oherwydd ei fod nid yn unig yn nodi uchelgais sy'n mynegi nod clir, sef cyfyngu ar y cynnydd yn nhymheredd y byd i 2˚C, ond ei fod hefyd yn mynegi awydd i leihau'r cynnydd hwnnw i 1.5˚C gyda phob un o'r 195 o wledydd a'r Undeb Ewropeaidd, yn hytrach na'r gwledydd datblygedig yn unig y canolbwyntiwyd arnynt yn flaenorol yn Kyoto, yn cytuno i weithio i leihau allyriadau.

3. Nid yw'r cytundeb yn pennu targedau sy'n rhwymo gwledydd yn gyfreithiol i leihau allyriadau. Yn hytrach, caiff cyfraniadau a ddiffinnir yn genedlaethol i leihau allyriadau eu crynhoi gan y Cenhedloedd Unedig a'u hadolygu bob 5 mlynedd. Er bod y cytundeb yn amlwg yn gam ymlaen, mae'n dibynnu ar sicrhau bod gwladwriaethau'n cyflawni eu cyfraniadau, a fydd yn heriol ac a fydd hefyd (o'u cyfuno) bron yn sicr yn annigonol i gyrraedd y targed o 2˚C, heb sôn am yr uchelgais i gyfyngu'r cynnydd i 1.5˚C.

4. O safbwynt Cymru, mynychodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol 21fed Gynhadledd y Partïon er mwyn atgyfnerthu rôl bwysig gwladwriaethau a llywodraethau rhanbarthol o safbwynt lleihau allyriadau, gan gyfeirio'n arbennig at Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau’r Dyfodol (2015), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, megis Plannwch! a’r Prosiect Carbon Bositif.

5. Un peth arbennig o berthnasol, o safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru, oedd rôl Llywodraeth Cymru o safbwynt llunio a llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngwladol sy’n rhwymo’r llywodraethau rhanbarthol a gwladwriaethol a lofnododd y memorandwm i sicrhau bod dull gweithredu’n seiliedig ar natur yn un o gonglfeini eu camau gweithredu yng nghyswllt yr hinsawdd. Nid yw hwn yn gysyniad newydd, oherwydd cafodd gwerth gwaith lliniaru ac addasu sy’n seiliedig ar ecosystemau ei gydnabod yn ystod cynadleddau blaenorol. Wrth gwrs, bydd ceisio ymgorffori ystyriaeth i’r newid yn yr hinsawdd yng nghyswllt Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chynyddu’r graddau y caiff carbon ei storio ar yr ystâd drwy’r prosiect hwn yn allweddol o safbwynt helpu i gyflawni’r ymrwymiad hwn ar ran Cymru.

6. Ers mis Rhagfyr, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi dod yn gyfraith ac yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu targedau statudol i Gymru ar gyfer lleihau allyriadau a phennu cyllidebau carbon 5 mlynedd er mwyn cynorthwyo i gyrraedd y targedau hynny. Ochr yn ochr â’r nodau sydd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, mae hynny’n rhoi sylfaen statudol ar gyfer datblygu’r polisïau a’r mesurau lliniaru sy’n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y targedau lleihau carbon, ac mae hefyd yn esgor ar fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach. Yn y cyd-destun hwn o ran polisi, mae gan y Prosiect Carbon Bositif rôl bwysig i’w chwarae o safbwynt arwain y newid i sector cyhoeddus carbon isel yng Nghymru trwy ddatblygu proses a dull gweithredu y gellir eu defnyddio a’u hefelychu’n ehangach ar draws cyrff cyhoeddus.

## <u>Diweddariad</u>

7. **Cyfrifo statws carbon net Cyfoeth Naturiol Cymru**. Mae gwaith wedi parhau ar fireinio’r broses o gyfrifo allyriadau carbon, gan ehangu cwmpas yr allyriadau a gaiff eu cynnwys a mynd i’r afael â bylchau o ran data. Mae’r hyn a ychwanegwyd wedi cynnwys defnydd Cyfoeth Naturiol Cymru o danwydd; oeryddion a gollir o oergelloedd a systemau tymheru aer; dulliau o drin y dŵr a ollyngir i ddraeniau o adeiladau; ffrydiau gwastraff y ceir gwared arnynt; a da byw ar gyfer gwaith rheoli gwarchodfeydd. Bydd gwahanu’r trydan a brynir rhwng tariff ynni adnewyddadwy a thariff ynni nad yw’n adnewyddadwy yn golygu bod modd defnyddio data priodol ynghylch allyriadau.

8. Ar sail cyfrifiadau dros dro yng nghyswllt y data diwygiedig, dyma’r pum prif ffynhonnell o allyriadau sy’n gysylltiedig â gweithgareddau craidd Cyfoeth Naturiol Cymru[1]:

[1] Heb gynnwys y nwyddau a’r gwasanaethau a gaiff eu caffael.

1) Y defnydd o drydan,
2) Y defnydd o ddiesel mewn cerbydau sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru,
3) Y defnydd o ddiesel mewn cerbydau ar brydles,
4) Y defnydd o ddiesel coch mewn offer / peiriannau sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru,
5) Nwy naturiol at ddibenion gwresogi.

9. Un ffocws allweddol ar gyfer gwella fu'r amcangyfrif o allyriadau sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyfrifo allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynir, gan ddefnyddio asesiad ar sail gwariant â'r ffactorau allyriadau sy'n gysylltiedig â chanllawiau Defra ar adrodd ynghylch yr amgylchedd. Mae hynny wedi bod yn fodd i adnabod prif allyriadau'r sefydliad o ran y gadwyn gyflenwi er mwyn helpu i dargedu ymdrechion i leihau allyriadau yn y modd mwyaf effeithiol posibl yn rhan o'r ymarfer cwmpasu. Ar sail cyfrifiadau dros dro, dyma bum prif ffynhonnell Cyfoeth Naturiol Cymru o allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau[2]:
   1) Contractwyr a gwasanaethau – cynaeafu coed,
   2) TGCh – gwasanaethau contractwyr ac ymgynghorwyr,
   3) Cludo (pren yn bennaf),
   4) Contractwyr a gwasanaethau – gwaith peirianyddol,
   5) Prynu, hurio a chynnal a chadw'r fflyd.

10. O gofio maint cyfraniad yr ystâd i'n statws carbon net, o safbwynt dal a storio carbon, mae dau gontract yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r amcangyfrifon sy'n ymwneud â'r carbon a gaiff ei ddal a'i storio mewn mawndir a choetir, gan fod y cynefinoedd hynny'n gyfwerth ag oddeutu 87% o ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru a'u bod yn debygol o gynnig y potensial mwyaf o ran gwella'r graddau y caiff carbon ei ddal a'i storio.

11. Mae Forest Research yn modelu cyfanswm y stociau carbon a'r holl garbon a gaiff ei ddal a'i storio bob blwyddyn ym mhob coetir sy'n perthyn i ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru (coedwigoedd masnachol a choetir ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol). Bydd y gwaith hwn yn defnyddio model carbon mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer coedwigoedd er mwyn amcangyfrif y graddau y caiff carbon ei storio mewn llystyfiant a phridd, ar sail trefniadau rheoli cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru – gan ystyried cyfansoddiad o ran rhywogaethau, proffil oedran, cyflymder twf a'r math o bridd.

12. Mae contract arall yn cael ei gwblhau er mwyn modelu stociau carbon ac allyriadau/y carbon a gaiff ei ddal a'i storio bob blwyddyn sy'n gysylltiedig â'r ystod o

[2] Heb gynnwys buddsoddiadau pensiwn, cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

gynefinoedd mawn ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar sail mapiau o ffosydd draenio a’r data gorau sydd ar gael am allyriadau ar gyfer mawndiroedd Cymru, bydd y dull hwn yn darparu asesiad wedi’i seilio ar gyflwr o’r graddau y caiff carbon ei storio, a bydd yn helpu i adnabod ardaloedd lle gallai prosiectau adfer mawndiroedd wella’r graddau y caiff carbon ei storio ar yr ystâd. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a’r dull gweithredu a nodir ym mhapur NRW 32.16 y Bwrdd sy’n trafod gwaith ynglŷn â Mawndiroedd i’r Dyfodol.

13. Mae gwaith ar y gweill yn awr i fireinio’r modd yr ydym yn cyfrifo allyriadau rheoli tir sy’n gysylltiedig â chynaeafu coed a gweithrediadau eraill (gan gynnwys ffensio, cludo, plannu coed, gwaith ar goed a gwaith peirianneg sifil mewn coedwigoedd) ynghyd â’r gwaith a wneir gan staff a chontractwyr ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.

14. Pan fydd yr holl ddata ar gyfer 2015-16 ar gael, bydd cyfrifiad sylfaenol diwygiedig yn cael ei lunio ynghyd â chanllawiau i eraill ynghylch y dull gweithredu.

15. **Ymarfer cwmpasu ar gyfer opsiynau lliniaru.** Mae gwaith ymchwil i fesurau lliniaru’r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd rhagddo, ac mae’n archwilio cyfleoedd allweddol i’r sefydliad leihau ei allyriadau, cynyddu’r graddau y caiff carbon ei ddal a’i storio, a gwarchod stociau carbon ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r cyfleoedd hynny’n cynnwys:

- *Y cyflenwad trydan* – archwilio opsiynau i newid cyflenwad trydan Cyfoeth Naturiol Cymru i dariff/cyflenwr ynni sy’n hollol adnewyddadwy. Mae’r prosiect yn gweithio ar y cyd â’r tîm Cyfleusterau a thîm y System Reoli Amgylcheddol i sicrhau bod cost yn ystyriaeth allweddol.

- *Effeithlonrwydd adeiladau* – gwerthuso adeiladau a thechnolegau er mwyn lleihau’r defnydd o ynni. Er enghraifft, mae’r prosiect yn cynorthwyo gwaith i gyflwyno mesurau’n ymwneud ag effeithlonrwydd adeiladau, megis paneli ffotofoltäig solar, goleuadau LED a phympiau gwres o’r aer, yn rhan o gais Buddsoddi i Arbed llwyddiannus a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ac mae’n archwilio cyfleoedd i ehangu’r rhaglen waith i adeiladau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru.

- *Lleihau allyriadau o dir ac asedau* – archwilio cyfleoedd i leihau’r defnydd o ynni drwy weithgareddau ar ein tir a thrwy weithredu ein hasedau. Er enghraifft, archwilio cyfleoedd i ôl-osod pympiau effeithlon o ran ynni a phaneli solar mewn gorsafoedd pwmpio er mwyn lleihau’r defnydd o ynni, megis yng ngorsaf bwmpio Greenmoor.

- *Trafnidiaeth* – ymchwilio i opsiynau cynaliadwy o ran trafnidiaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys rhoi hyfforddiant Eco-drive i staff a threialu cerbydau

trydan a phwyntiau gwefru er mwyn lleihau'r defnydd o ddiesel yn ein fflyd. Gan weithio gyda Sustrans, rydym hefyd yn ystyried y potensial i hybu dulliau llesol o deithio (cerdded a beicio) er mwyn teithio'n ôl ac ymlaen i'r gwaith a chyflawni rhai teithiau busnes byr.

- *Cynhyrchu ynni adnewyddadwy* – mae contract yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd er mwyn asesu'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel ffordd o leihau dibyniaeth y sefydliad ar drydan o'r grid, a fydd yn lleihau ein hallyriadau a'n costau.

- *Caffael nwyddau a gwasanaethau* – mae allyriadau sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru oddeutu tair gwaith yn fwy na'n holl allyriadau o weithrediadau uniongyrchol. Mae'r prosiect yn archwilio pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith ym mholisi caffael Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael, o safbwynt eu cyfraniad i leihau allyriadau carbon. Gallai hynny gynnwys dylanwadu ar fframweithiau, ehangu'r defnydd a wneir o 'gyfrifianellau carbon' er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno mathau newydd o ddeunyddiau yn lle hen rai, annog ein cyflenwyr i fabwysiadu mesurau lleihau carbon, rhoi mwy o bwys ar feini prawf sy'n ymwneud â charbon, a gwella canllawiau ynghylch lleihau effaith contractau o safbwynt carbon.

- *Adfer mawndiroedd* – adfer cynefin sydd wedi'i ddiraddio (cynefin sy'n allyrrwr carbon net) sydd â llawer o botensial i ddal a storio carbon ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gwaith i ailwlychu ardal o fawn ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ystyried yn ardal brawf Rheoli Adnoddau Naturiol Dyfi er mwyn cynyddu potensial yr ardal i ddal a storio carbon, sicrhau manteision amgylcheddol ehangach, a bod yn fodd i arddangos gwaith o'r fath i dirfeddianwyr lleol. Mae camau i adfer mawn sy'n erydu a chynefinoedd eraill sydd wedi'u diraddio ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu hystyried hefyd.

- *Cynyddu'r graddau y caiff carbon ei ddal a'i storio ar yr ystâd goetir* – mae cyfleoedd i gynyddu'r graddau y caiff carbon ei ddal a'i storio ar yr ystâd goetir yn cael eu harchwilio. Gallai hynny gynnwys dylanwadu ar y modd y caiff ardaloedd o goetir eu rheoli a/neu'r modd y caiff coetir ei greu, a dylanwadu ar y defnydd a wneir o gynnyrch mewn achosion lle mae gennym rywfaint o reolaeth.

- *Gwarchod stociau carbon ar ein daliadau tir* – mae daliadau tir Cyfoeth Naturiol Cymru (e.e. cynefinoedd ar ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol) hefyd yn cynrychioli stoc enfawr o garbon (y carbon a gaiff ei storio mewn priddoedd a llystyfiant). Mae cynnal a chadw a gwarchod y stociau hyn yn bwysig oherwydd gall unrhyw ddiraddio/unrhyw golled olygu bod cynefinoedd yn troi'n allyrwyr carbon net. Mae'r prosiect yn archwilio opsiynau a fydd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod ei stociau carbon.

16. **Blaenoriaethu opsiynau lliniaru a chyflawni prosiectau arddangos.** Bydd allbynnau gwaith ymchwil yr ymarfer cwmpasu'n cael eu mireinio trwy:
   - ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb cynigion ar yr ystâd;
   - adnabod arfer gorau o ran rheoli carbon, y gallwn ddysgu oddi wrtho (e.e. BT, Ystâd y Goron);
   - cynnal asesiad, ar sail Cromliniau Costau Lleihau Ymylol, o'r opsiynau hynny sy'n addas ar gyfer dadansoddiad meintiol o'r fath er mwyn darganfod y manteision ariannol tebygol;
   - gwerthuso'r opsiynau lliniaru'n ansoddol er mwyn nodi'r manteision ychwanegol y gellid eu sicrhau o ran nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
   - cyflwyno opsiynau arfaethedig a nodi cyfleoedd lliniaru eraill trwy'r digwyddiadau ymgysylltu â staff a gynhelir ddechrau mis Mai.

17. Un o elfennau allweddol y prosiect fydd arddangos sut y mae rhoi opsiynau lliniaru ar waith ar draws gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd cynigion y prosiect yn deillio o'r ymarfer cwmpasu. Mae sawl opsiwn wedi'i gynnig ar gyfer camau gweithredu â blaenoriaeth, ac mae trafodaethau ac ymchwiliadau manwl ar y gweill er mwyn darparu ynni adnewyddadwy ar gyfer cyflenwad trydan Cyfoeth Naturiol Cymru, gosod goleuadau LED, rhoi cynnig ar ddefnyddio cerbydau trydan, ac adfer ardal o fawn wedi'i ddiraddio sy'n destun astudiaeth achos.

18. **Canlyniadau'r prosiect**. Bydd y gwaith o flaenoriaethu opsiynau lliniaru yn nodi'r mesurau sydd i'w cyflawni neu'u treialu yn rhan o'r prosiect yn ystod 2016/17 (*Prosiectau Arddangos*) a mesurau eraill a fydd yn rhan o gynllun cyflawni hirdymor (*Cynllun Gweithredu ar gyfer y Dyfodol*). Ochr yn ochr â'r *cyfrifiad Statws Carbon Net* ac *adroddiad cynhwysfawr y Prosiect Carbon Bositif* ynghylch ein dull gweithredu, bydd pedwar allbwn hyn y prosiect yn darparu'r adnoddau y byddwn yn eu rhannu â sefydliadau eraill.

19. **Gweithio gydag eraill.** Rydym wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru ynghylch ailffurfio'r prosiect er mwyn gwella ein statws carbon net yn hytrach na chyflawni'r nod gwreiddiol, sef troi'n sefydliad carbon bositif net. Mae Strategaeth Gyfathrebu wedi'i llunio ar gyfer y prosiect, a chafodd y prosiect ei hyrwyddo yn 21fed Gynhadledd y Partïon ym Mharis, y digwyddiad *Newid Hinsawdd: Ymrwymiad i Weithredu* a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr, ac yng Nghomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

20. Canolbwyntiwyd ar gyflawni'r prosiect yn fewnol hyd yma ond mae gan aelodau'r Comisiwn ddiddordeb mawr mewn ymwneud â'r prosiect wrth iddo fynd rhagddo. Yn ogystal, mae'r prosiect yn trafod ag ystod o sefydliadau cyhoeddus a phreifat er mwyn adnabod arfer gorau a dysgu. Pan fydd yr ymarfer cwmpasu wedi'i gwblhau,

bwriedir trefnu digwyddiad i randdeiliaid yn y sector cyhoeddus er mwyn helpu i hwyluso gweithredu ehangach gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

**Argymhelliad**

21. Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma, cymeradwyo'r opsiynau lliniaru a gaiff eu blaenoriaethu er mwyn eu hystyried ymhellach a'u cyflawni trwy brosiectau arddangos neu trwy eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu ar gyfer y Dyfodol, a rhoi sylwadau ar yr opsiynau hynny.

**Prif risgiau**

22. Bydd methu ag asesu'r opsiynau a chyflawni'r mesurau lliniaru arfaethedig yn arwain at broblemau i'n henw da, yn ein hatal rhag sicrhau arbedion ariannol hirdymor o fesurau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac adnoddau, ac yn tanseilio gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn esiampl i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru o safbwynt rheoli carbon. Yn rhan o'r broses o reoli'r prosiect, mae cofrestr risg gynhwysfawr wedi'i llunio er mwyn helpu i leihau risgiau, a bydd yn cael ei hadolygu gan y Grŵp Llywio.

**Goblygiadau ariannol**

23. Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru â chyllideb o £825,000 sydd wedi'i neilltuo, hyd at fis Mawrth 2017. Mae cynllun prosiect a phroffil cyllideb wedi'u llunio er mwyn monitro gwaith cyflawni, a chaiff gwariant ei oruchwylio gan Grŵp Llywio'r prosiect.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

24. Nid yw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn berthnasol, er y gallai fod angen asesiad o'r fath ar y mesurau lliniaru manwl wrth iddynt ddod i'r amlwg, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deg ac yn sicrhau cydraddoldeb i bawb.